CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

512/51

**ASTUDIO'R CYFRYNGAU**

**ME2**

**Cynrychioliadau a Derbyniad yn y Cyfryngau**

A.M. DYDD IAU, 8 Mehefin 2006

(1½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch Gwestiwn 1 a **naill ai** Cwestiwn 2 **neu** Gwestiwn 3.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn mewn cromfachau.
Asesir ymgeiswyr yn ôl eu gallu i gyfathrebu'n ysgrifenedig.
Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

*Atebwch Gwestiwn 1 a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3.*

**1.** Darllenwch y gosodiadau canlynol, a dynnwyd o draethodau gan fyfyrwyr am gynrychioliadau o wrywdod *(masculinity)*, ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

"Mae'r cyfryngau, yn y 21ain Ganrif, yn dal i greu ideoleg bod dynion yn uwchraddol *(superior)* i fenywod."

"Mae cynrychioliadau o ddynion mewn cylchgronau yn newid yn gyson. Ni ddangosir dynion bob amser fel y rhai sy'n ddominyddol."

"Mae'r rhan fwyaf o naratifau ffilm yn canolbwyntio ar ffigurau gwrywaidd, arwrol, cryf."

*(a)* Diffiniwch **ddau** o'r geiriau a danlinellwyd. [6]

*(b)* Rydych yn gweithio i asiantaeth hysbysebu. Mae gofyn i chi greu hysbyseb i gylchgrawn ar gyfer sent eillio *(after-shave)* a fydd yn herio'r cynrychioliadau traddodiadol o ddynion.

- Rhowch enw i'r cynnyrch.
- Yn fyr, amlinellwch brif nodweddion yr hysbyseb.
- Esboniwch sut y bydd yn herio'r cynrychioliadau traddodiadol o ddynion. [9]

*(c)* I ba raddau y mae'r cynrychioliad o ddynion yn y cyfryngau wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf yn eich barn chi? Gallwch gyfeirio at y deunydd adnoddau os dymunwch. [10]

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3.*

**Naill ai,**

**2.** *(a)* Enwch **ddwy** ddamcaniaeth sy'n gysylltiedig â'r *ddadl effeithiau (effects debate).* [2]

*(b)* Esboniwch y ddwy ddamcaniaeth gan ddefnyddio enghreifftiau. [10]

*(c)* I ba raddau y mae trais ar y teledu yn achosi ymddygiad treisgar yn eich barn chi? [13]


**Neu,**

**3.** *(a)* Diffiniwch y term 'cynulleidfa oddefol' *(passive audience).* [4]

*(b)* Ydych chi'n credu bod cynulleidfaoedd yn oddefol? Defnyddiwch ddwy enghraifft i ategu'ch ateb. [8]

*(c)* I ba raddau y mae'r cyfryngau'n dylanwadu ar agweddau pobl yn eich barn chi? Defnyddiwch enghreifftiau i ategu'ch safbwynt. [13]






Atgynhyrchwyd â chaniatâd Russell & Bromley

